

Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenywyr ifanc!

# Dod i adnabod

## Rebecca Thomas




Daw Rebecca Thomas o Gaerdydd yn wreiddiol.

Wedi treulio cyfnodau yn astudio a gweithio ym Mhrifysgolion Caer-grawnt a Bangor, mae bellach yn ymchwilydd yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.

Hanes, diwylliant a llenyddiaeth y Gymru ganoloesol yw ei harbenigedd.

Dyma yw ei nofel gyntaf.



### Crynodeb:

Braf iawn yw cael cyhoeddi fy nofel gyntaf, *Dan Gysgod y Frenhines*. Wedi treulio degawd yn gweithio ar hanes y Gymru ganoloesol mae'n gyffrous mentro i gyfeiriad mwy creadigol wrth ddod â'r hanes hwn i gynulleidfaoedd newydd. Er ei bod hi'n nofel hanesyddol ganoloesol, mae hefyd yn nofel sydd yn gyfoes ei iaith a'i themâu. Dyma stori am Gymru'r gorffennol, felly, sydd heb os yn berthnasol i Gymru heddiw.

I mi yn bersonol, cymeriadau benywaidd y nofel oedd yn bwysig. Roeddwn i wedi dychmygu llond llu o gymeriadau benywaidd amrywiol, ac am adrodd stori a roddai rôl weithredol iddynt, tra'n cydbwysu hynny gyda'r cyfyngiadau hanesyddol ar eu bywydau. Prin iawn yw'r sylw a roddir i fenywod mewn ffynonellau hanesyddol canoloesol. Wedi eu hysgrifennu gan fynachod mae'r croniclau, gyda'u diddordeb pennaf yng ngweithredoedd y brenhinoedd ac

esgobion. Er mwyn creu darlun o fywydau menywod yn y cyfnod, mae'n rhaid i'r hanesydd ddarllen rhwng y llinellau. Gweithred o ysgrifennu'n greadigol rhwng y llinellau yw'r nofel hon, felly. Digwyddiadau hanesyddol go iawn yw'r fframwaith, ond rwy'n mynd ati i ddychmygu sut y gallai'r cymeriadau benywaidd - rhai yn ffuglennol, rhai wedi eu seilio ar ffigyrau hanesyddol - fod wedi gweithredu o fewn y fframwaith hwn.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r wasg am y cyfle i gyhoeddi'r nofel hon. Mae ffuglen hanesyddol ar ei hanterth ar hyn o bryd, yn enwedig i blant ac oedolion ifanc. Fel hanesydd, mae'n galonogol iawn gweld y diddordeb hwn yn y gorffennol, ac yn yr Oesoedd Canol yn enwedig. Braint yw cael cyfrannu fy nofel fy hun i'r maes hwn, gan obeithio bydd y stori yn llwyddo i ennyn diddordeb y darllenwyr yn y Gymru ganoloesol.

### Beth wnaeth eich ysbrydoli i ysgrifennu *Dan Gysgod y Frenhines*?

Hanes y Frenhines Æthelflaed! Hi oedd brenhines Mersia (un o deyrnasoedd y Saeson) yn y ddegfed ganrif, a heb os yn un o fenywod mwyaf pwerus Prydain yr Oesoedd Canol. Byd brenhinoedd oedd hwn - doedd menywod ddim fel arfer yn cael bod â rhyw lawer o bwerau neu ddylanwad. Ond fe lwyddodd Æthelflaed i deyrnasu yn annibynnol ac hefyd i basio'r goron i'w merch, Ælfwynn. Ro'n i'n meddwl bod ei hanes hi'n ddiddorol dros ben ac felly ro'n i am greu stori allan o'r peth.

### Oedd unrhyw heriau arbennig wrth baratoi'r llyfr?

Cydbwysu'r elfennau hanesyddol a dychmygol! Ro'n i eisiau sicrhau bod y nofel yn cadw at yr hyn rydyn ni'n gwybod am hanes y cyfnod hwn tra'n ysgrifennu stori afaelgar a chyffrous.

### Beth wnaeth eich ysbrydoli i ddechrau ysgrifennu?

Ro'n i'n arfer ysgrifennu pan yn iau ac wnes i ailgydio yn y peth yn ddiweddar. Mae'n un o'r ddau beth sy'n fy helpu i edrych ar ôl fy iechyd meddwl - ysgrifennu ac ymarfer corff.

### Beth, yn eich barn chi, yw elfennau pwysicaf ysgrifennu da?

Dim gormod o ansoddeiriau (gwerau gan hen athro Cymraeg yn yr ysgol!) Y cymeriadau yw'r peth pwysicaf i fi - mae'n rhaid iddyn nhw neidio o'r dudalen.



[carreg-gwalch.cymru](http://carreg-gwalch.cymru)



Llyfrgelloedd Cymru  
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A  
ar wefan

[llyfrgelloedd.cymru](http://llyfrgelloedd.cymru)